

No.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 24 Mai, 2023

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, E. Goodjohn, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards and N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden Chwaraeon a Lles), N.C. Thomas and E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

55 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

56 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd E. Goodjohn yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

57 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

58 ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO AMLINELLOL BRO MORGANNWG 2023 (CYF) –

Cafodd y cyfeirnod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Ebrill 2023 ei gyflwyno gan Ian Phillips, Archwilio Cymru, i'r Pwyllgor ei ystyried ac ar gyfer goruchwylio a chymeradwyo Cynllun Archwilio Amlinellol arfaethedig Archwilio Cymru 2023 ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg.

Cafwyd yn Atodiad A fanylion ynghylch sut y byddai Archwilio Cymru yn cwblhau'r gwaith hwn yn 2023. Nodwyd ei fod yn gynllun amlinellol gyda throsolwg lefel uchel o'r gwaith a gynigiwyd o ran gwaith archwilio perfformiad.

Mae'r Cynllun yn nodi'r cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilio cyfriflenni ariannol, gan gynnwys gwybodaeth am y rhaglen waith archwilio perfformiad ar gyfer 2023/24 a oedd yn cynnwys 2 adolygiad thematig. Y bwriad oedd cynnal adolygiadau, ar gyfer pob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru, ar gomisiynu a rheoli contractau ac ar gynaliadwyedd ariannol a fyddai'n adeiladu ar waith cynharach yn y maes hwn. Y bwriad hefyd oedd gwneud prosiect lleol yn y Cyngor ar y Gwasanaeth Cynllunio, ac roedd ymchwil yn digwydd ar hyn ar hyn o bryd, h.y. sut olwg fyddai ar y prosiect hwnnw. Roedd y Cynllun hefyd yn nodi pwy oedd y Tîm Archwilio lleol a'r llinell amser archwilio. Byddai'r Cynllun llawn, yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn darparu'r ffi archwilio, gyda Chynghorau eisoes wedi cael gwybod y byddai'r ffi archwilio ariannol yn gweld cynnydd o tua 15%.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

- (1) BOD Cynllun Archwilio Amlinellol Archwilio Cymru 2023 arfaethedig ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ddarllen a'i gymeradwyo ganddynt.

Rheswm dros yr argymhelliad

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn galluogi'r Cabinet i gadw golwg ar y rhaglen waith Archwilio Cymru.

59 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 4YDD CHWARTER 2022/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2023/24 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Swyddog y Gwasanaethau Democraataidd a Chraffu wybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac Amserlen Arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig ail-ddatganiad ynghylch egwyddorion allweddol craffu ac i annog Aelodau'r Pwyllgor a rhanddeiliaid eraill i ymgysylltu'n well â'r broses Craffu ac i wneud awgrymiadau ynghylch adroddiadau ac eitemau eraill i'r Pwyllgor eu hystyried. Yn rhan o hyn, byddai cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu er mwyn caniatáu i Flaenraglenni Gwaith y Cabinet a Chraffu gael eu datblygu a'u cytuno ar y cyd. Hefyd, yng Nghynadledau Agenda gyda Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu, byddai rheoli Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar yr agendâu i'w hystyried a'u trafod.

No.

Yn dilyn hyn, awgrymodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Dr. Johnson syniadau i'r Pwyllgor ymgymryd â nhw ar gyfer gwaith Gorchwyl a Gorffen a byddai'r ddau o'r rhain yn cael eu cymryd i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i'w hystyried:

- Adolygu'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael newydd a'r gwaith cysylltiedig gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC), gan gynnwys Cyngor Caerdydd, ar ddull a rennir o gaffael yn ogystal ag edrych ar fuddion posibl y Polisi a'r Strategaeth o ran gwerth cymdeithasol a datgarboneiddio.
- Ystyried yr argyfwng costau byw parhaus a'i effaith ar drigolion ym Mro Morgannwg, gan gynnwys effeithiau parhaus y 'Dreth Ystafell Wely', Credyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion rhent tai.

Awgrymodd y Cynghorydd Dr. Johnson hefyd adolygu nifer o'r argymhellion wedi'u nodi 'yn parhau' neu 'heb ei gwblhau' yn yr atodiadau i'r adroddiad, a'u marcio 'wedi'i gwblhau' lle'n briodol.

Cyfeiriodd y Cynghorwyr Carroll a Haines at hyd rhai cyfarfodydd Craffu a'r adroddiadau ar yr agendâu, gyda'r awgrym y dylai swyddogion cyflwyno leihau neu gwtogi eu hadroddiadau i'r Pwyllgor a darparu crynodeb gweithredol mwy sylweddol yn lle. O ran hyd adroddiadau, eglurwyd bod swyddogion fel arfer yn darparu cyflwyniad neu wybodaeth atodol fel canllaw cyfeirio cyflym i'r Aelodau pan oedd adroddiadau'n drwm. O ran y cynnig ynghylch y crynodeb gweithredol, byddai hyn yn cael ei ystyried ar y cyd â swyddogion adrodd.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd am ailgyflwyno'r ffurflen awgrym pwnc craffu a beth a oedd yn digwydd ar ôl eu cyflwyno. Esboniwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried a'i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, er mai'r bwriad oedd y byddai'r rhain yn cael eu cyfeirio at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ac yn y pen draw y Pwyllgor i'w hystyried fel rhan o gynnwys yr awgrymiadau hyn gan y cyhoedd yn Rhaglen Waith y Pwyllgor.

Yn dilyn hyn, gofynnodd yr Is-Gadeirydd a oedd y papur cefndir ar yr adroddiad ar y protocol Craffu o 2017 yn dal yn addas at ei ddiben gan ystyried yr 'ail-lansio' hwn ac a oedd capasiti i'r Pwyllgor edrych ar sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r hyn yr oedd Craffu yn ceisio ei gyflawni. Eglurwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried a'i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Pwysleisiodd y Cynghorydd hefyd yr angen weithiau i gael mwy o esboniad a chyflwyniad o adroddiadau gan swyddogion mewn cyfarfodydd, yn enwedig er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r materion sy'n cael eu cyflwyno ac i helpu i esbonio jargon a therminoleg arall a ddefnyddir.

Roedd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau yn derbyn y gallai lefel a graddfa'r adrodd a aeth i Graffu fod yn eithaf sylweddol, gan gynnwys ar gyfer y Pwyllgor hwn, a gallai hyn fod yn her i'r Aelodau graffu arno'n effeithiol. Fodd bynnag, yn rhannol, roedd hyn oherwydd mai dyma'r Pwyllgor Craffu arweiniol a'i fod yn adlewyrchu'r cyfnod heriol a oedd yn wynebu'r Cyngor ac yn gofyn am fwy o adrodd a chraffu i'r pwyllgor hwn a'r Pwyllgorau Craffu eraill. Roedd yn bwysig nad oedd pethau'n mynd drwy gabinet heb graffu digonol ac felly'n bwysig i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgorau Craffu eraill ystyried a thrafod materion busnes allweddol a materion eraill y Cyngor yn eu cylch gwaith.

No.

Yn rhan o hyn, byddai'n fuddiol iawn cynnal y cyfarfodydd arfaethedig rhwng Aelodau'r Cabinet a'r Cadeiryddion Craffu er mwyn mynd â materion i'w hystyried a'u craffu ymlaen at y pwyllgorau perthnasol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

(1) BOD statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i D yr adroddiad yn cael eu cytuno, yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Bod statws yr argymhellion heb eu cwblhau yn Atodiadau A a B, yn cael eu hadolygu a'u marcio fel rhai a gwblhawyd fel y bo'n briodol.
- Bod statws Argymhelliad (3) ar gyfer Cof. Rhif 731 - Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol Drafft ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill (REF) (Atodiad D) yn cael ei ddiweddarau a'i farcio ei fod wedi ei gwblhau.
- Bod statws Argymhelliad (2) ar gyfer Cof. Rhif 843 – Archwilio Cymru: Camu Ymlaen – Rheoli Asedau a Chynllunio'r Gweithlu Bro Morgannwg (DCR) (Atodiad D) yn cael ei ddiweddarau a'i farcio ei fod wedi ei gwblhau.

(2) BOD Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2023/24 sydd wedi'i hatodi yn Atodiad E, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol 2023/24, yn cael ei nodi.

(3) BOD Amserlen Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 sydd ynghlwm fel Atodiad F yn cael ei gymeradwyo a'i uwchlwytho i wefan y Cyngor.

(4) BOD y pynciau canlynol ar gyfer gwaith Gorchwyl a Gorffen yn cael eu cymryd i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, er mwyn iddynt gael eu hystyried a'u blaenoriaethu yn unol ag Amcanion Corfforaethol er mwyn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor:

- Adolygu'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael newydd a'r gwaith cysylltiedig gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC), gan gynnwys Cyngor Caerdydd, ar ddull a rennir o gaffael yn ogystal ag edrych ar fuddion posibl y Polisi a'r Strategaeth o ran gwerth cymdeithasol a datgarboneiddio.
- Ystyried yr argyfwng costau byw parhaus a'i effaith ar drigolion ym Mro Morgannwg, gan gynnwys effeithiau parhaus y 'Dreth Ystafell Wely', Credyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion rhent tai.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1) Cynnal tracio effeithiol ar argymhellion y Pwyllgor.

(2) Cyd-fynd ag Adran 7.6 Protocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.

(4) I'w ystyried gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn unol ag Amcanion Corfforaethol er mwyn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor.

60 DIWYGIO LLES – ADRODDIAD TERFYNU (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 (ar y cyd â'r Rheolwr Budd-daliadau a Thaliadau a'r Rheolwr Gweithredol – Trysorlys), a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan y Cyngor o dan Ddiwygio Lles. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Nod yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf derfynol am y gwaith a ddechreuwyd gyntaf gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diwygio Lles ac argymhellodd fod hyn bellach wedi'i ailffocysu o dan y portffolio Cost Byw parhaus gyda diweddariadau yn cael eu darparu'n chwarterol trwy adrodd perfformiad yn ogystal â diweddariadau ar wahân o arwyddocâd strategol.
- Roedd cwmpas yr adrodd wedi ehangu er mwyn ymdrin â materion ac effeithiau sylweddol pellach ar drigolion ledled Bro Morgannwg megis yr argyfwng costau byw a gwnaed cryn dipyn o waith i'w cynorthwyo lle bo hynny'n bosibl, h.y. taliadau costau byw (prif gynllun) – 23,223 o daliadau sy'n dod i gyfanswm o £3,483,450.
- Amlinellodd yr adroddiad y cyd-destun economaidd, gan gynnwys lefelau uchel yn parhau o chwyddiant h.y. chwyddiant pennawd o hyd ar 8.7% a chwyddiant bwyd ar 16%.
- Roedd y Tîm Refeniw a Budd-daliadau wedi gwneud llawer iawn yn ystod y 12 mis diwethaf gan gynnwys symud unrhyw gwsmeriaid sy'n weddill yn awr yn systematig i Gredyd Cynhwysol (CC) fel rhan o'r broses derfynol o gyflwyno'r diwygiadau lles graddol a wnaed ers dechrau'r 2010au.
- Cyfeiriwyd hefyd at y Cap Budd-daliadau, tanfeddiannaeth a'r pwysau economaidd cyffredinol a gafodd effaith benodol ar Daliadau Tai Dewisol (DHP) lle bu angen ychwanegol sylweddol ond lleihau cymorth y Llywodraeth a bod y Cyngor yn gorfod sicrhau bod darpariaeth gyllidebol ychwanegol ar gael.

Yn dilyn hyn, cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at effaith yr argyfwng costau byw a waethygodd y materion blaenorol, wedi'i ysgogi gan fesurau cyni ac effaith y diwygiadau lles, h.y. y 'Dreth Ystafell Wely'. O ran ei gwestiwn am argaeledd data ar effaith barhaus y Dreth Ystafell Wely, y Cap Budd-daliadau a diwygiadau lles eraill ar denantiaid y Cyngor a phreswylwyr eraill, eglurwyd ei bod yn parhau i fod yn heriol tynnu'r data hwn, ond cysylltir â'r Swyddog Cyswllt DWP lleol i weld a ellid echdynnu'r data a'i rannu gyda'r Pwyllgor ynghylch yr effaith ar drigolion Bro Morgannwg.

O ran ymholiad y Cadeirydd am eithriadau ar gyfer categorïau penodol o bobl mewn anheddau y mae'r Dreth Ystafell Wely yn effeithio arnynt, eglurwyd bod eithriadau o'r fath yn brin ond y gellid eu rhoi o dan amgylchiadau penodol, h.y. person sengl mewn llety gyda mwy nag un ystafell wely a allai fod angen cymorth gofalu dros nos.

No.

Gofynnodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards a fyddai modd ehangu unrhyw adroddiad yn y dyfodol i gynnwys credydau pensiwn, yng ngoleuni poblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol ac felly mwy o bobl yn trosglwyddo o Gredyd Cynhwysol i Gredyd Pensiwn. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd bod symiau sylweddol o Gredyd Pensiwn heb eu hawlio yn y DU. Hefyd, fel rhan o hyn, a oedd unrhyw allu i ymgorffori data o'r fath yn yr adroddiad o ran pa waith yr oedd y Cyngor yn ei wneud i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd a allai fod yn agosáu at y cyfnod pontio hwn, fel eu bod yn gwybod ymlaen llaw beth y gallai fod ganddynt hawl iddo. Eglurwyd y byddai swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys y wybodaeth hon i adrodd y mater hwn i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll a ellid gwneud mwy i wella cyfathrebu â thrigolion ynghylch y buddion a'r cymorth arall a oedd ar gael iddynt, h.y. Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf. Eglurwyd bod llawer iawn wedi ei wneud eisoes i roi cyhoeddusrwydd i'r llu o gynlluniau oedd ar gael i drigolion y Fro. Roedd gwersi hefyd wedi cael eu dysgu o weithredu a chyflwyno'r Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf / Gostyngiad Treth y Cyngor a bu ymdrechion egnïol i gysylltu â thrigolion er mwyn sicrhau bod pawb a oedd yn gymwys yn gallu derbyn taliad.

Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at adroddiad diweddar Sefydliad Bevan a'r awgrym o system fudd-daliadau integredig yng Nghymru a gofynnodd a oedd y Cyngor wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru neu'r DU ynghylch creu system mor integredig o fudd-daliadau a chymorth. Esboniwyd nad oedd y Cyngor wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau, ond roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi bod yn rhan o edrych ar y maes hwn ac maen nhw wedi llunio adroddiad ac argymhellion ynghylch hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Haines a yw Taliad Tai yn ôl Disgresiwn Yn agored i bob hawliwr budd-dal tai. Eglurwyd y gallai unrhyw un a oedd yn derbyn naill ai budd-dal tai neu gostau tai o fewn Credyd Cynhwysol wneud cais am hwn os oedd diffyg rhwng yr hyn yr oeddent yn ei gael mewn budd-dal tai neu gostau tai Credyd Cynhwysol a'r rhent yr oeddent yn ei dalu. O ran y niferoedd cymharol isel o ymgeiswyr am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn, er gwaethaf y cynnig o gymorth i lenwi'r ffurflenni cais, ac ati, ni wnaeth rhai pobl gwblhau na dilyn y cais a / neu chwilio am opsiynau eraill. Gallai gweithiwr cymorth lenwi ffurflenni hefyd, a chynigiodd y Cyngor apwyntiadau dros y ffôn neu mewn person er mwyn cynorthwyo hefyd.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson y byddai'n ddefnyddiol cael ffigurau ar nifer y bobl a wnaeth gais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn yn y Fro ond nad oedd wedi cwblhau'r broses. Cyfeiriodd hefyd at adrodd yn y dyfodol ar y maes hwn yn rhan o'r gwaith ymchwil ehangach a gafodd ei awgrymu, ac a fyddai hyn yn cael ei wneud bob chwarter neu bob blwyddyn. Eglurwyd y byddai'r adroddiadau'n cael eu darparu'n rheolaidd sy'n berthnasol i gylch gwaith pob un o'r Pwyllgorau Craffu yn rhan o'r adroddiadau perfformiad chwarterol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

No.

ARGYMHELLWYD – NODI cynnwys yr adroddiad ac y cytunwyd y dylid ymgorffori'r agenda Diwygio Lles wrth adrodd ar agenda costau byw ehangach wrth symud ymlaen.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

61 CYNGOR BRO MORGANNWG – CYMHWYSO'R EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY MEWN MEYSYDD GWASANAETH (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ian Phillips, Archwilio Cymru, a'i ddiben oedd cyflwyno canfyddiadau adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, i'w hystyried gan Aelodau.

Yn ystod 2021/22, cododd Archwilio Cymru bryderon ynghylch sut yr aeth y Cyngor ati i ddelio â chynnig ar gyfer gwella yn yr adolygiad o Wasanaethau Hamdden Allanol. Roedd hyn yn ymwneud â chryfhau'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adnewyddu contract hamdden y Cyngor. Er bod camau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn sgil hynny wedi rhoi cryn sicrwydd, gofynnwyd am sicrwydd pellach gan Archwilio Cymru i sicrhau bod y dysgu'n cael ei ymgorffori ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor.

Yn dilyn hynny, cynhaliwyd adolygiad gan Archwilio Cymru yn hanner olaf 2022 i gael sicrwydd pellach bod y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn rhoi'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar waith.

Amlinellodd yr adroddiad (Atodiad A i'r adroddiad) ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol a daethant i'r casgliad, 'mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn effeithiol i raddau helaeth, er bod lle i ddatblygu rhai elfennau ymhellach.' Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Roedd uwch swyddogion y Cyngor, gyda chymorth fframwaith corfforaethol, yn helpu i yrru diwylliant cadarnhaol a oedd yn helpu gwasanaethau i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ond ni chafodd hyn ei ymgorffori'n llawn yn ei becyn cymorth rheoli prosiect;
- Roedd cymorth corfforaethol effeithiol i helpu meysydd gwasanaeth i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ond roedd cyfle i'r Cyngor gryfhau ei gynnig dysgu a datblygu; a
- Roedd gan y Cyngor fecanweithiau ar waith a oedd yn ei helpu i asesu a oedd meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn effeithiol ac roedd yn cymhwyso dysgu i gryfhau ei drefniadau.

Mae dau argymhelliad wedi'u gwneud:

No.

- A1: Dylai'r Cyngor ddatblygu ei becyn cymorth rheoli prosiectau i sicrhau bod y dogfennau hynny wedi helpu swyddogion i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o'r cychwyn cyntaf.
- A2: Dylai'r Cyngor ddatblygu ei gynnydd dysgu a datblygu i helpu i sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'u bod yn gallu cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ôl yr angen yn eu rolau.

Mewn ymateb i'r argymhellion uchod, datblygodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol gynllun gweithredu (ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad) a fyddai'n cael ei ddatblygu gan y Cyngor. Yn unol â threfniadau monitro perfformiad y Cyngor, byddai'r cynnydd yn erbyn meysydd gwella rheoleiddiol yn cael ei fonitro drwy'r Traciwr Insight.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, nododd y Cadeirydd bwysigrwydd gwreiddio yn niwylliant ac arferion y Cyngor yr egwyddorion 'economi gylchol' a'r angen i leihau gwastraff. Dylid cynnwys hyn yn nysgu a datblygiad y Cyngor. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd a oedd comisiynu wedi'i gynnwys pan gyfeiriodd yr adroddiad at becyn cymorth rheoli'r prosiect. Eglurodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, oherwydd bod y Polisi a'r Strategaeth Gaffael yn cael ei hadnewyddu'n ddiweddar, eu bod yn cyfeirio'n benodol at y Pum Ffordd o Weithio hynny, ac o ran sut mae'r broses honno ar gyfer comisiynu yn gweithio. Y canfyddiadau a ganfu Archwilio Cymru mewn perthynas â'r pecyn cymorth rheoli prosiect oedd, oherwydd nad oedd wedi cael ei ystyried ers nifer o flynyddoedd, tra bod rhai o'r ffyrdd o weithio yn cael eu hadlewyrchu, nid oedd y rhain mor eglur ag y dylent fod er mwyn annog swyddogion y Cyngor i ystyried pethau'n fwy holistig. Felly, roedd angen nawr adolygu a gwella ar y meysydd hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Pum Ffordd o Weithio ac roedd yn synnu bod angen 'ysgogi' swyddogion y Cyngor i ystyried y Pum Ffordd o Weithio yn rhan o reoli prosiectau. Esboniwyd bod diwylliant y Cyngor yn gyffredinol yn iach gyda byrddau trawsbynciol mewn meysydd fel Prosiect Sero, ffyrdd trawsbynciol eraill o weithio a her dda gan uwch swyddogion. Teimlwyd y gellid ategu hyn gydag awgrymiadau ychwanegol yn y ddogfennaeth ategol wrth ymgymryd â gwaith er mwyn peidio â cholli'r cyfleoedd.

Ategodd y Cynghorydd Haines bwynt y Cynghorydd Carroll ynghylch pam fod angen 'ysgogi' swyddogion o ran gwaith a oedd yn rhan o'u rôl, pan fyddai modd rheoli gwneud hyn drwy ddulliau mwy anffurfiol. Eglurwyd bod yr awgrymiadau hyn wedi'u rhoi mewn dim ond i helpu i roi'r egwyddorion a'r dyletswyddau ar flaen meddyliau swyddogion.

Ychwanegodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau fod datblygu cynaliadwy yn gofyn am bwysu a mesur rhwng ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan nodi hefyd y llwyddiant, a rhai heriau sy'n parhau, gydag ailgylchu ar wahân o fewn y Fro a bod yr adroddiad yn cynnig beirniadaeth adeiladol ac 'ysgogiadau' i'r Cyngor, a oedd yn y bôn yn mynd i'r cyfeiriad cywir o ran datblygu cynaliadwy.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

(1) BOD y canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad ar Gymhwysiad y Cyngor ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn Gwasanaethau (Atodiad A) ac ymateb y Cyngor i ganfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad B) yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet iddynt fwrw golwg drosto a chymeradwyo camau gweithredu arfaethedig y Cyngor (Atodiad B) i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Bod y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried yr adroddiad ac wedi hynny i'r Cabinet er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn gweithredu meysydd gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.

62 CYTUNDEB RHEOLI HAMDDEN – DIWEDDARIAD ARIANNOL (CAT) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor ar sefyllfa ariannol presennol y Contract Rheoli Hamdden rhwng Parkwood Leisure a'r Cyngor a'r cymorth a ddarparwyd trwy'r Pandemig Covid:

- Dechreuodd y Contract Rheoli Hamdden presennol ar 1 Awst, 2012 am gyfnod cychwynnol o 10 mlynedd, gyda disgwyl iddo ddod i ben yn 2022. Cafodd y contract gyda Parkwood ei ymestyn o fis Awst 2022 am gyfnod o 7 mlynedd a 5 mis.
- Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ariannol ar gostau darparu'r Contract Gwasanaethau Hamdden gyda Parkwood, trwy Legacy Leisure yn ystod y pandemig, drwy gydol yr adferiad a thu hwnt. Roedd costau ychwanegol sylweddol yn ystod y pandemig oherwydd colli incwm ac iechyd cyffredinol y diwydiant hamdden. Ar ôl y pandemig roedd heriau newydd oherwydd y pwysau economaidd byd-eang a ysgogwyd yn bennaf gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin gan arwain at yr argyfwng costau byw a chostau ynni uwch.
- Roedd y contract newydd wedi'i seilio ar gynnydd mewn costau cyfleustodau gyda'r Cyngor yn wynebu'r risg, a oedd wedi arwain at neilltuo £200k ychwanegol yn y Gyllideb ar gyfer 2023/24. Gobeithir o ddiwedd y flwyddyn ariannol ni fyddai angen cyllid pellach. Fodd bynnag, roedd cymorth o'r fath yn helpu i sicrhau na fyddai angen mesurau arbed ynni eraill cyn gostwng costau ynni, h.y. ni fyddai angen ystyried mesurau fel cau swyddi nofio.

No.

- ran gwerth am arian, Cyngor Bro Morgannwg oedd yr unig Awdurdod Lleol yng Nghymru (yn seiliedig ar ffigurau 2019/20) i ennill incwm o'r contract hamdden.
- Yn ogystal, roedd Legacy Leisure wedi penodi Swyddog Datblygu Cymunedol newydd i weithio gyda'r gymuned i gynyddu cyfranogiad pob grŵp a gweithredu cynllun Cymunedau Actif. Roedd hyn mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a byddai canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol fel rhan o'r data rheoli perfformiad a gafodd.
- Roedd adroddiad Rhan II ar yr agenda yn nodi'r manylion o ran y costau ychwanegol a'r cymorth i Parkwood.

Yn dilyn hyn, dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson ei bod yn arwydd cadarnhaol bod cymorthdaliadau'n dod i ben ar gyfer y gwasanaethau hamdden, er y byddai wedi bod yn fuddiol cael y diweddariad hwn yn gynt er mwyn rhoi sicrwydd yn gynharach i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Haines y byddai'n fwy priodol defnyddio'r term 'arolwg cymharol' yn hytrach na 'meincnodi' mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol eraill ac ar gostau darparu Canolfannau Hamdden yn yr adroddiad. Roedd hefyd yn teimlo y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r Cyngor fod wedi mynd allan i dendro ar gyfer y gwasanaethau hamdden cyn adnewyddu'r contract presennol. Mewn ymateb, oherwydd natur fasnachol y sylw hwn, byddai hyn yn cael sylw yn y fersiwn Rhan II o'r adroddiad hwn sy'n dod yn syth ar ôl yr eitem agenda hon.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Hanks yr adroddiad ac ymdrechion swyddogion y Cyngor i adnewyddu'r contract hwn o dan amgylchiadau anodd.

Cymeradwyodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles yr adroddiad a Legacy Leisure / Parkwood a oedd wedi profi i fod yn ddarparwr allanol hynod effeithiol a llwyddiannus o wasanaethau hamdden yn y Fro, yn ogystal â gwaith swyddogion y Cyngor i gefnogi hyn.

Awgrymodd y Cadeirydd fod y Cyngor yn gweithio gyda Swyddog Datblygu Cymunedol Legacy Leisure / Parkwood i helpu i sicrhau bod y egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei roi ar waith yn y contract sy'n parhau. Cytunodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai y gallai hyn fod yn fuddiol, a bod y darparwr allanol bob amser yn agored i syniadau o'r fath.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD - BOD y sefyllfa ariannol bresennol a'r cymorth a roddwyd i ddarparwr y Ganolfan Hamdden trwy Bandemig Covid-19 a'r heriau economaidd presennol yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

63 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

64 CYTUNDEB RHEOLI HAMDDEN – DIWEDDARIAD ARIANNOL (CAT)
(GWYBODAETH EITHRIEDIF PARAGRAFFAU 12, 12A A 14) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor ar sefyllfa ariannol presennol y Contract Rheoli Hamdden rhwng Parkwood Leisure a'r Cyngor a'r cymorth a ddarparwyd trwy'r Pandemig Covid.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ariannol ar gostau darparu'r Contract Gwasanaethau Hamdden gyda Parkwood, trwy Legacy Leisure yn ystod y pandemig, drwy gydol yr adferiad a thu hwnt. Roedd costau ychwanegol sylweddol yn ystod y pandemig oherwydd colli incwm ac iechyd cyffredinol y diwydiant hamdden ac roedd yr adroddiad hwn yn nodi'r manylion o ran costau ychwanegol cymorth i Parkwood.

Ar ôl y pandemig roedd heriau newydd oherwydd y pwysau economaidd byd-eang a ysgogwyd yn bennaf gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin ayb.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD - BOD y sefyllfa ariannol bresennol a'r cymorth a roddwyd i ddarparwr y Ganolfan Hamdden trwy Bandemig Covid-19 a'r heriau economaidd presennol yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.